Annwyl Gwsmer,

# Ymgynghoriad cyhoeddus lleol - Dweud eich dweud

**Swyddfa Bost Y Gelli**
**10-11 Heol Tŷ-isaf, Y Gelli, CF41 7TX**

Rydym yn bwriadu symud y gangen Swyddfa'r Post uchod i leoliad newydd: Siop Gyfleustra Asees, 41 Heol Tŷ-isaf, Y Gelli, CF41 7TX, lle byddai'n cael ei rhedeg fel un o'n canghennau lleol eu natur, yn amodol ar ymgynghoriad.

**Pam ydym yn cynnig y newid hwn?**
Mae'r postfeistr cyfredol wedi ymddiswyddo, ac ni fydd yr adeilad ar gael at ddefnydd Swyddfa'r Post; fodd bynnag, mae'n dda gennym ddweud wrthych y penodwyd rhywun arall i redeg Swyddfa Bost Y Gelli, mewn lleoliad arall.

Mae'r person hwnnw'n credu'n gryf y byddai symud yn helpu i gadw gwasanaethau Swyddfa'r Post yn lleol, yn ogystal â chefnogi hyfywedd eu busnes. Ein blaenoriaeth yw diogelu ein gwasanaethau yn yr ardal yn yr hirdymor a byddai adleoli Swyddfa Bost Y Gelli yn golygu y byddem yn gallu cynnal gwasanaeth Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid yn y gymuned.

**Hoffem gael eich cymorth**
Rydym nawr yn dechrau cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac mae eich adborth yn bwysig i ni oherwydd bydd yn ein helpu i wneud ein penderfyniad. Mae rhagor o fanylion am y gwasanaethau a fwriedir a hygyrchedd y safle yn y crynodeb o wybodaeth am y gangen yn nes ymlaen yn y ddogfen ymgynghorol hon.

**Am beth yn hollol rydym yn ymgynghori?**
Hoffem gael eich sylwadau ynghylch y canlynol:

- **Pa mor hawdd yw cyrraedd y lleoliad newydd arfaethedig?**
- **A yw'n hawdd i chi fynd i mewn i'r adeilad newydd ac i symud o gwmpas y tu mewn?**
- **A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r gymuned leol a allai, yn eich barn chi, gael eu heffeithio gan y newid arfaethedig neu ddylanwadu arno?**
- **Pe bai'r symud yn digwydd, a oes unrhyw beth y gallem ei wneud fel ei bod yn haws i gwsmeriaid?**

Mae'r newid a argymhellir i reolaeth y gangen yn benderfyniad i Swyddfa'r Post Cyf ac felly nid ydym yn chwilio am ymateb i'r agwedd hon ar y newid.

| | |
|---|---|
| Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dechrau | **Dydd Gwener 17 Ionawr 2025** |
| Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dod i ben | **Gwener 28 Chwefror 2025** |
| Mis y newid arfaethedig | **Mawrth / Ebrill 2025** |

Gallwch rannu eich barn am y newid arfaethedig trwy ein holiadur hawdd a hwylus ar-lein ar postofficeviews.co.uk. Wrth fynd i mewn i'r wefan, gallwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgynghoriad ar gyfer y gangen hon – naill ai yn ôl enw'r gangen, y côd post neu'r côd unigryw ar gyfer y gangen: **383611**

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

postoffice.co.uk

**Sut i rannu eich barn:**

**Hyb Ymgynghori (postofficeviews.co.uk)**
comments@postoffice.co.uk
Ffoniwch: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55
FREEPOST Your Comments – D.S. Hwn yw'r cyfeiriad post llawn. Mae eitemau a anfonir drwy Freepost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd pen y daith, ac felly dylech ganiatáu digon o amser.

**Eisiau rhoi eich barn yma nawr? Sganiwch yma.**

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael un yn eich storfa apiau.

**Mae'n dda gwybod**

- Byddai cwsmeriaid yn cyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn man gwasanaeth modern â chynllun agored a sgrin isel sydd yn rhan o gownter y siop
- Trwy gydweithio â'r postfeistr, byddem, pe bai angen, yn addasu patrwm presennol y siop, ynghyd â'r celfi gosod a'r ffitiadau, er mwyn gwneud lle i dil y Swyddfa Bost
- Byddai'r gangen yn cynnig dewis tebyg o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post yn ystod oriau agor estynedig, fel bod cwsmeriaid yn gallu defnyddio eu Swyddfa Bost pan mae'n gyfleus. Mae canran uchel o gwsmeriaid yn fodlon â changhennau lleol eu natur, ac mae llawer o gwsmeriaid yn ymweld y tu allan i'r oriau agor traddodiadol
- Byddai'r holl staff a gyflogid i weithio yn y gangen newydd arfaethedig yn cael hyfforddiant o'r safon uchaf yn barhaus ynghylch cynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal â materion gweithredol a materion yn ymwneud â gwasanaeth
- Nawr bydd posteri a thaflenni yn cael eu harddangos mewn canghennau er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am yr argymhelliad a gofyn iddynt am eu sylwadau
- Bydd unrhyw wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei hystyried yn ofalus wrth i ni baratoi ein cynlluniau terfynol
- Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddwn yn ysgrifennu atoch eto ar ddiwedd yr ymgynghoriad i ymateb i'r prif faterion a godwyd ac i esbonio ein cynlluniau terfynol ar gyfer y gangen
- Mae'r ymgynghoriad hwn yn unol a'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Grŵp Defnyddwyr yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff eirioli statudol annibynnol y defnyddwyr Mae darn sy'n ymwneud ag Ymgynghori ar ddiwedd y llythyr hwn.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall y newidiadau y bwriadwn eu gwneud i Swyddfa Bost Y Gelli. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni. Mae ein manylion cyswllt ar waelod y dudalen gyntaf.

Diolch ichi am ystyried ein hargymhelliad.

Yr eiddoch yn gywir,

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**
**Rheolwraig Newidiadau Rhanbarthol**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

# Crynodeb Gwybodaeth Swyddfa Bost Y Gelli

**Mae yna adegau o bosibl pan fydd rhaid newid oriau agor cangen. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan**
**www.postoffice.co.uk/branch-finder**

| Y Lleoliad Presennol | Y Lleoliad Newydd Arfaethedig |
|---|---|
| 10-11 Heol Tŷ-isaf, Y Gelli, CF41 7TX | Siop Gyfleustra Asees, 41 Heol Tŷ-isaf<br>Y Gelli, CF41 7TX |

**Yr oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 08:30 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Dydd Mawrth | 08:30 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Dydd Mercher | 08:30 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Dydd Iau | 08:30 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Dydd Gwener | 08:30 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Dydd Sadwrn | 08:30 – 12:30 |
| Dydd Sul | Ar Gau |

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Mawrth | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Mercher | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Iau | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Gwener | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Sadwrn | 08:00 – 19:00 |
| Dydd Sul | 10:00 – 17:00 |

## Cynhyrchion a Gwasanaethau

Byddai dewis tebyg o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd.

## Mannau Gwasanaeth

Byddai man gwasanaeth Swyddfa'r Post ar gael wrth gownter y siop.

## Mynediad

Ar hyn o bryd mae stepen wrth fynedfa'r adeilad arfaethedig, ond byddai'r gweithredwr newydd yn darparu ramp symudol er mwyn helpu cwsmeriaid sydd â phroblemau symudedd neu ddefnyddwyr cadair olwyn i fynd i mewn i'r siop. Hefyd, ceid arwydd a chloch i'w chanu am gymorth. Byddai'r gloch o fewn cyrraedd defnyddwyr cadair olwyn.

Y tu mewn, ceid dolen glyw a lle ar gyfer cadair olwyn.

## Cyrraedd yno

Byddai'r gangen newydd arfaethedig tua 45 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir gwastad gan fwyaf.

Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd gerllaw.

| Y siop | Siop gyfleustra. |
|---|---|

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol – er enghraifft mewn print mwy bras, sain neu braille ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55**

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau, gan gynnwys gwasanaethau Swyddfa'r Post eraill yn yr ardal, ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder

**I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44.**
**Mae manylion am werth uchaf trafodion ar gael gan y sawl sy'n rhedeg y Swyddfa Bost.**

**Rydym yn gwerthu gwasanaethau'r Post Brenhinol a Parcelforce Worldwide.**
**Mae gwasanaethau post gan gwmnïau eraill hefyd ar gael mewn canghennau penodol.**

| Cynhyrchion a Gwasanaethau | Y gangen gyfredol | Y gangen arfaethedig |
|---|---|---|
| **Bancio Personol a Busnes o Ddydd i Ddydd** | | |
| Codi Arian Parod | ✓ | ✓ |
| Adneuo Arian Parod | ✓ | ✓ |
| Adneuo Sieciau | ✓ | ✓ |
| **Post** | | |
| Drop & Go | ✓ | ✓ |
| Gwasanaethau Parcelforce Express | ✓ | ✓ |
| **Talu Biliau ac Adlenwadau** | | |
| Talu biliau ac adlenwadau | ✓ | ✓ |
| **Teithio** | | |
| Arian Tramor | **Ewros** | **Ewros** |
| Yswiriant Teithio | ✓ | **TBC** |
| Cerdyn Arian Teithio | ✓ | ✓ |
| **Eich Arian** | | |
| Ffurflenni Cais Cynilion | ✓ | × |

| | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau nad ydynt ar gael yn y gangen newydd ar gael yn | **Swyddfa Bost Tonpentre**,<br>27 Heol yr Eglwys, Tonpentre, CF41 7EB |

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

*Mae fersiwn llawn o'r dogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk*

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

*Byddwn yn **Ymgynghori** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn penderfynu ynghylch:*

- Cau cangen Swyddfa'r Post yn barhaol[5]
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreinio cangen â Rheolaeth Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos[6] er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid, cynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr, ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os penderfynir bwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd ac i mewn iddi.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth hon ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

<u>Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:</u>

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**postofficeviews.co.uk** **Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Comments@postoffice.co.uk** **Ffôn Testun: 03457 22 33 55**
**FREEPOST Your Comments**

5 Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath bydd yr ymgynghoriad yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post arall yn yr ardal.

6 Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd